**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 46**

**Ymateb gan: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)**

**Response from: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)**

---

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr addysg bellach ac addysg uwch ledled Cymru.

1.2. Rydym yn ddiolchgar am y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor yng nghyfnod 1 y broses graffu.

## 2. Yr angen am ddeddfwriaeth

2.1. Nid oes gan UCAC farn gref ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth yn y maes hwn, ond rydym yn deall ac yn cyd-fynd i raddau gyda'r angen i greu sector ôl-16 mwy cydlynus sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau, mwyaf effeithiol i ddysgwyr, fel yr amlinellwyd yn yr 'Adroddiad Hazelkorn'[1] nôl yn 2016.

2.2. Gwelwn mai prif her y Bil yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng undod a chysondeb ar y naill law, a gwahaniaethu ('differentiation') ac arbenigedd ar y llall. Er mai'r bwriad yw gweithio tuag at sector mwy unedig, gyda phrosesau ar y cyd, rhaid cydnabod y gwahaniaethau sylweddol iawn rhwng y sectorau niferus ac amrywiol y bwriedir eu cwmpasu dan awenau'r Comisiwn. Mae llawer o'r rhain yn wahaniaethau go iawn, sy'n bodoli am resymau pwysig. Wrth reswm, mae eraill yn wahaniaethau 'hanesyddol' y mae'n hen bryd eu herio. Camp y Bil a'r Comisiwn ei hun fydd tafoli i ba raddau y mae angen cysondeb ac i ba raddau y bydd angen parhau i wahaniaethu, ac ym mha ffyrdd.

2.3. Pwynt sy'n gysylltiedig â'r uchod yw'r angen i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol i bob un o'r sectorau a fydd yn dod dan gwmpas y Comisiwn. Ni ddylai'r gynrychiolaeth fod ar sail 'fathemategol' mewn perthynas â 'maint' y sectorau (o ran cyllid neu nifer y dysgwyr), am fod rhai ohonynt yn anferth ac eraill yn fach iawn o gymhariaeth. Llais teg a chlir i bob sector ddylai fod yn llinell sylfaen.

---

[1] https://llyw.cymru/goruchwylio-addysg-ol-orfodol-ccauc-adolygiad-hazelkorn

2.4. Gan fod deddfwriaeth yn cael ei datblygu yn y maes, mae'n gyfle i sicrhau gwelliannau er enghraifft mewn perthynas â llywodraethiant, hwyluso llwybrau dysgwyr, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

2.5. Croesawn yn arbennig y Dyletswyddau Strategol.

2.6. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon penodol ynghylch y Bil. Manylwn ar y rheiny isod.

**3. Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg**

3.1. Gan nad yw'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus wedi dod i fodolaeth eto, teimlwn y dylai'r Bil hwn sicrhau cyfeiriadau priodol at rôl ganolog gweithio mewn, a hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg a hynny ar wyneb y Bil.

3.2. Mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn sicrhau llais priodol i bob partner, ac mae'n ddull hynod effeithiol ar gyfer datrys problemau ac ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym ac yn cynnig heriau.

3.3. Gan fod gennym bryderon ynghylch cynrychiolaeth staff ar Fwrdd y Comisiwn (gweler adran 4 isod), gallai cryfhau'r gofynion ynghylch gweithio mewn partneriaeth leddfu rhywfaint ar y pryderon hynny, trwy roi llais priodol mewn dull llawer fwy cynrychioliadol. Yn wir, gallai bodolaeth fforwm partneriaeth gymdeithasol hwyluso gwaith y Bwrdd yn sylweddol iawn trwy adnabod ac o bosib osgoi neu ddatrys problemau'n gyflym, cyn iddynt ddod at lefel y Bwrdd.

3.4. Awgrymwn y gallai partneriaeth gymdeithasol fod yn un o'r Dyletswyddau Strategol; mi fyddai hynny'n gydnaws â bwriad ac uchelgais Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

3.5. Yn ogystal, gellid ystyried sicrhau bod gweithio ar sail partneriaeth gymdeithasol yn rhan o'r amodau cofrestru ar gyfer y sefydliadau perthnasol.

**4. Aelodaeth y Comisiwn**

4.1. Rydym yn bryderus dros ben ynghylch rhai agweddau o aelodaeth y Comisiwn (Atodlen 1).

4.2. **Statws aelodau cyswllt:** Nid yw'n glir beth yw pŵer a dylanwad aelodau cyswllt. Yr hyn sy'n glir yw nad ydynt yn gymwys i bleidleisio yn unrhyw drafodion y Comisiwn. Ai rôl ymgynghorol sydd ganddynt? Neu rôl sylwedydd?

4.3. Mae adran 3.83 o'r Memorandwm Esboniadol yn creu rhywfaint o ddryswch mewn perthynas ag aelodau cyswllt. Mae anghysondeb rhwng fersiwn Cymraeg a Saesneg yr adrannau hyn. Mae'n Gymraeg yn cyfeirio at 'aelodau <u>cynghorol</u> cyswllt', ac at y ffaith y byddant 'yn cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol a staff y Comisiwn'. Nid yw'r fersiwn Saesneg yn dweud hynny, ond mae'r ffaith ei fod yn nodi mai o blith undebau a gydnabyddir yn swyddogol gan y Comisiwn y caiff aelodau cyswllt eu dethol yn awgrymu mai at staff y Comisiwn y cyfeirir, yn hytrach nag at staff gweithluoedd y sector trydyddol. Cymrwn mai rhwng sefydliadau unigol a'r undebau y mae trefniadau cydnabyddiaeth swyddogol yn gorwedd, ac mai undebau sy'n cynrychioli staff y Comisiwn ei hun fyddai'n cael eu cydnabod yn swyddogol gan y Comisiwn. Ond mae angen eglurder ynghylch y mater, ac ynghylch ai staff y Comisiwn neu staff y gweithluoedd trydyddol sydd i fod yn aelodau cyswllt o'r Comisiwn.

4.4. **Niferoedd:** Pryderwn y gallai bod cyn lleied â dau aelod cyswllt yn cynrychioli'r gweithlu – un i gynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol 'academaidd' a'r llall i gynrychioli'r gweithlu addysg

drydyddol 'anacademaidd'. Mae'n anodd dirnad sut y bydd modd i'r unigolion hyn gynrychioli ystod mor eang, niferus ac amrywiol o weithluoedd, yn pontio o leiaf pum sector gwahanol. Rydym yn teimlo bod y trefniant yn gyfan gwbl annigonol ac y dylid cynyddu'r nifer o lefydd wedi'u gwarantu er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol.

4.5. Yn yr un modd, pryderwn fod y gynrychiolaeth ar gyfer dysgwyr yn annigonol. Nid yw'n bosib i un dysgwr gynrychioli safbwyntiau dysgwyr ar draws holl rychwant darpariaeth drydyddol. Unwaith eto, gofynnwn am ystyriaeth i godi'r lleiafswm o niferoedd sydd wedi'u gwarantu, yn ogystal â ffyrdd eraill o gryfhau llais y dysgwyr ar lefel sefydliadol.

4.6. **Grym y Gweinidogion:** Teimlwn fod rôl Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r 'penodiadau' hyn yn rhy gryf yng nghyd-destun corff lled annibynnol, er yr rydym yn cydnabod bod y mwyafswm y cyllid yn dod gan Lywodraeth Cymru.

**5. Y Gymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

5.1. Mae rôl y Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg, a hyrwyddo addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg yn allweddol i nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd angen i'r gwaith hyn fod yn gwbl ganolog i'r Comisiwn, yn strategol ac yn rhagweithiol, ac mae angen alinio'n agos iawn gyda Strategaeth Cymraeg 2050.

5.2. Rydym yn croesawu'r ffaith bod 'Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg' yn un o ddyletswyddau strategol y Comisiwn.

5.3. Fodd bynnag, nodwn mai at addysg yn unig y mae'r cyfeiriad yn y ddyletswydd strategol, ac nid at ymchwil. Hoffai UCAC weld gwelliant yng Nghyfnod 2 fyddai'n ychwanegu 'ac ymchwil' i'r ddyletswydd.

5.4. Ymhellach, rydym yn awyddus i sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn briodol o ran lefel yr her a'r cyfrifoldeb – ac yn benodol bod digon o eglurder ar wyneb y Bil, yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol neu'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg. Bydd eglurder o ran gofynion gweithredu'n hanfodol.

5.5. Rhaid inni godi pryder ynghylch ieithwedd y Bil mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn benodol yn Adran 8 (b): 'cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb galw rhesymol'.

5.6. Er bod '**pob cam rhesymol**' yn ymddangos yn gryf, mewn gwirionedd nid ydym yn hyderus y bydd y geiriad yn rhoi'r sail ar gyfer mynnu gweithredu gan sefydliadau.

5.7. Teimlwn yn gryf iawn bod cyfeirio at '**ateb galw rhesymol**' yn broblematig a bod angen ystyried addasu'r geiriad yng Nghyfnod 2 y broses graffu. Yn y sector ysgolion, yng nghyd-destun y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, mae'r drafodaeth a'r ffocws polisi wedi hen symud ymlaen o 'ymateb i'r galw' i 'gynnig rhagweithiol'. Os yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a datblygu sgiliau Cymraeg yn 'fudd cyhoeddus' ('public good'), wedyn rhaid mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo, ac nid aros i bobl cymryd diddordeb a mynnu hawl. Gan fod hanes o danfuddsoddi, a than-datblygiad o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16 (er bod hynny wedi dechrau gwella ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y sector addysg uwch, ac ymestyn cwmpas y Coleg yn ddiweddar iawn i'r sector addysg bellach a phrentisiaethau), nid oes traddodiad na phatrwm o ddarpariaeth Gymraeg ledled Cymru, ac nid

yw'n rhesymol i ddisgwyl i bobl 'alw' amdano. Rhaid cynllunio a gweithredu'r ddarpariaeth ac amlinellu manteision dilyn y llwybrau hyn.

5.8. Rydym yn cydsynio'n llwyr gyda thystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg ynghylch yr angen i roi'r pwyslais ar ddilyniant yn y cyd-destun hwn, a pharhau i adeiladu ar sgiliau a fydd yn hynod o werthfawr i ddysgwyr yn eu bywydau gwaith a phersonol.

5.9. Er mwyn sicrhau bod ffocws canolog a pharhaus ar ddatblygu addysg ac ymchwil Cymraeg, gofynnwn am roi ystyriaeth i opsiynau megis sicrhau lle i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar Fwrdd y Comisiwn, neu ffurfioli'r berthynas rhwng y Comisiwn a'r Coleg – mewn ffordd fyddai'n parchu annibyniaeth y Coleg yn llwyr.

**6. Dosbarthiadau chwech mewn ysgolion**

6.1. Rydym wedi mynegi pryderon sylweddol mewn ymgynghoriadau blaenorol ynghylch y cynigion hyn am y pwerau pellgyrhaeddol fydd gan y Comisiwn mewn perthynas ag ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth, ac mae ein pryderon am y mater hwn yn parhau.

6.2. Rydym yn derbyn yn llwyr mai un o brif amcanion y Comisiwn yw creu sector trydyddol mwy cydlynus, ac mae hynny i'w groesawu. Rydym yn derbyn yn ogystal bod cystadleuaeth, ar sail cyllid gan amlaf, rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach, a bod ystyriaethau a buddiannau sefydliadol yn gallu bod yn drech na budd dysgwyr mewn rhai achosion. Mae angen sicrhau mai buddiannau'r dysgwyr sy'n arwain, ac yn sicr mae gan y Comisiwn rôl yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae nifer o broblemau a phryderon penodol yn codi gyda'r cynnig fel ag y mae.

6.3. **Aneglurder:** Rydym wedi'i chael yn anodd iawn cael sicrwydd ynghylch union hyd a lled y pwerau a roddir i'r Comisiwn o ran ad-drefnu. Mae'r pwyslais yng ngeiriad y Bil yn teimlo'n dra gwahanol i'r pwyslais yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n ymddangos yn fwy pellgyrhaeddol. Rhaid sicrhau bod y sefyllfa'n gyfan gwbl glir ar wyneb y Bil.

6.4. **Priodoldeb y grymoedd:** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y canlynol:

> *434. Mae'r diwygiadau yn dileu'r gofyniad awtomatig i gynigion trefniadaeth ysgolion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, ond yn hytrach pan fo awdurdod lleol wedi penderfynu cymeradwyo, gwrthod neu weithredu cynigion o'r fath a bod gwrthwynebiad i'r cynigion hynny, bydd gan y Comisiwn y pŵer i atgyfeirio'r cynigion at Weinidogion Cymru, a bydd rhaid iddynt benderfynu arnynt.*

6.4.1. Rydym yn credu bod hyn yn golygu y bydd gan y Comisiwn y pŵer i atgyfeirio cynigion dadleuol at Weinidogion Cymru i'w penderfynu (popeth yn iawn), ond hefyd y pŵer i ddewis peidio gwneud hynny, ac i sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu gweithredu hyd yn oed os ydynt yn hynod o ddadleuol. Ni fyddai hynny'n dderbyniol o gwbl.

> *435. Mae'r diwygiadau hefyd yn dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan roi'r pwerau yn lle hynny i'r Comisiwn i resymoli addysg chweched dosbarth (Pennod newydd 3A o Ran 3 ar drefniadaeth ysgolion).*

6.4.2. Mae'r defnydd o'r gair 'rhesymoli' ('rationalise') fan hyn ac mewn mannau ar wyneb y Bil ei hun yn gwbl ymfflamychol ac annerbyniol. Hyd yn oed os na fwriedir hynny, i'r sawl sy'n

gweithio yn y sector dosbarthiadau chwech, bydd y defnydd o'r gair hwnnw yn golygu un peth yn unig, sef cau dosbarthiadau chwech. Ymhlyg yn y gair yw'r syniad o waredu darpariaeth fach o blaid darpariaeth ar raddfa fwy. Nid dyna'r unig ystyriaeth wrth drafod darpariaeth dosbarthiadau chwech (gweler isod).

*436. Mae'r pwerau hynny yn cynnwys gallu'r Comisiwn i gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, o dan amgylchiadau penodol ac yn unol â'r Cod, i ddwyn ymlaen gynigion ynghylch addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Bydd gan y Comisiwn y pŵer i wneud ei gynigion ei hun yn dilyn cyfarwyddyd ganddo os yw'r amser i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu wneud y cynigion wedi dod i ben neu os ydynt wedi cyhoeddi cynigion. Os bydd gwrthwynebiadau i gynigion gan y Comisiwn, rhaid i'r mater gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru. Fel arall rhaid i'r Comisiwn benderfynu a ddylent gael eu gweithredu.*

6.4.3. Mae'n ymddangos bod hyn yn golygu y bydd gan y Comisiwn y pŵer i naill ai gyfarwyddo awdurdod lleol i wneud cynigion ynghylch addysg chweched dosbarth mewn ysgolion, neu i wneud ei gynigion ei hun dan amgylchiadau penodol. Deallwn y bydd union natur yr amgylchiadau hynny yn destun ymgynghori wrth ddiwygio'r Cod Trefniadaeth Ysgolion i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth hon; ond mae'r ffaith na fydd hynny'n debygol o gael ei bennu tan ar ôl i'r ddeddfwriaeth hon gael ei chwblhau yn destun pryder. Mae'r pwerau y gallai'r Bil ei ganiatáu yn eang a phellgyrhaeddol iawn o safbwynt darpariaeth dosbarthiadau chwech.

*437. Mae'r diwygiadau hyn o ganlyniad i gyfrifoldeb y Comisiwn am sicrhau bod cyfleusterau addysg a hyfforddiant priodol yn cael eu darparu ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed (gweler adran 90).*

6.4.4. Rhaid gofyn a yw'r pwerau a gynhwysir yn y Bil yn gymesur â'r pwrpas? Mae UCAC yn teimlo'n gryf bod y pwerau'n amhriodol o ymyrrol, ac nad oes pwerau tebyg yn cael eu cynnig ar gyfer unrhyw sector arall dan gwmpas y Comisiwn. Nodwn nad oes unrhyw warant y cynhwysir barn o'r sector addysg dosbarthiadau chwech mewn ysgolion ar unrhyw gorff (Bwrdd y Comisiwn?) sy'n gwneud y penderfyniad i wneud gorchymyn i orfodi awdurdod lleol i wneud cynigion, neu i wneud ei gynigion ei hun.

6.5. **Ysgolion fel sefydliadau ehangach:** Teimlwn yn gryf bod angen cydnabod nad yw dosbarthiadau chwech yn sefydliadau ynysig y mae modd dod i benderfyniadau yn eu cylch dim ond yng nghyd-destun addysg drydyddol. Mae dosbarthiadau chwech yn rhan o sefydliadau ehangach, ac er bod trefn wahanol ar gyfer cyllido addysg oedran orfodol ac addysg ôl-16, mae cydberthynas creiddiol rhwng dosbarthiadau chwech a gweddill yr ysgol y maent yn rhan ohoni.

6.6. Enghraifft o hyn yw'r ffaith fod llawer o athrawon yn mwynhau dysgu Safon Uwch, a gall fod yn rhwyddach i ysgolion ddenu ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi yn yr ysgol os oes modd iddynt gynnig darpariaeth ôl-16 fel rhan o'r arlwy.

6.7. Nid ydym o'r farn mai'r Comisiwn fyddai yn y lle gorau i wneud penderfyniadau ynghylch dosbarthiadau chwech a allai effeithio ar natur <u>a chynaladwyedd</u> y ddarpariaeth oedran ysgol orfodol sydd y tu hwnt i'w gylch gorchwyl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

6.8. **Darpariaeth Gymraeg:**

6.9. Mae’r pryder hwn yn arbennig o gryf yng nghyd-destun addysg cyfrwng Cymraeg, gan mai dosbarthiadau chwech yw’r unig sefydliadau sy’n darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn sefydliad cyfrwng Cymraeg, hynny yw, parhad o’r model trochi, sy’n fethodoleg mor effeithiol ar gyfer datblygu sgiliau ieithyddol, beth bynnag yw’r pynciau a astudir. Mae hyn yn dal i fod yn wir er gwaethaf cynnydd calonogol yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog mewn colegau addysg bellach.

6.10. Byddai sicrhau lle ar Fwrdd y Comisiwn i’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn rhoi rhywfaint o hyder bod materion cyfrwng Cymraeg yn derbyn ystyriaeth briodol ar lefel strategol a gweithredol.

**7. Corff llywodraethu ysgolion - dyletswyddau**

7.1. Nodwn bryder ynghylch dyletswyddau ‘cyrff llywodraethu’ mewn perthynas â dosbarthiadau chwech. Nid ydym yn gwbl sicr ai corff llywodraethu ysgolion unigol sydd dan sylw, neu a oes cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol yn y cyd-destun hwn, yn enwedig mewn perthynas â Rhan 2 y Bil, Cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol (e.e. amodau cofrestru cychwynnol, amodau cofrestru gofynnol parhaus). Mi fydd yn bwysig bod eglurder llwyr ym mhob achos, a bod y gofynion yn gydnaws â, ac yn rhesymol mewn perthynas â natur y corff.